# ATODLEN 1

## YMGORFFORI SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

## RHAN 4

## AELODAU SY'N GYFLOGEION

*Telerau penodi*

17 (1) Bydd telerau penodi yr aelodau sy'n gyflogeion yn cael eu pennu gan yr aelodau anweithredol.

(2) Caiff y telerau gynnwys trefniadau talu cydnabyddiaeth a all—

(a) gwneud darpariaeth ar gyfer lwfansau, arian rhodd a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan y person yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC, a

(b) cynnwys fformiwla neu fecanwaith arall ar gyfer addasu un neu fwy o'r elfennau hynny o dro i dro.

(3) Ni chaiff y trefniadau talu cydnabyddiaeth ddarparu ar gyfer talu cyflog nac ychwaith, yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), ar gyfer pensiwn.

(4) Bydd y symiau sy'n daladwy o dan is-baragraff (2) yn cael eu talu gan SAC.

(5) Os yw aelod sy'n gyflogai ("A") yn cyfranogi o gynllun pensiwn o dan delerau cyflogaeth A gyda SAC, rhaid i'r trefniadau talu cydnabyddiaeth (heb effeithio ar barhad y gyflogaeth honno) wneud darpariaethau sy'n sicrhau bod gwasanaeth A fel aelod sy'n gyflogai i'w drin, at ddibenion y cynllun, fel petai'n wasanaeth fel cyflogai i SAC.